# Carer Factsheet

## Money Matters

### Benefits

You or the person you care for may be entitled to financial help depending on your age, needs and income.

Benefits are very complex so it may be best to seek advice from organisations such as Citizens Advice, Age Connects or your local Hub if you live in Cardiff.

DWP also offers online support at www.gov.uk.

### Carer's Allowance

If you care for someone who is ill or severely disabled and you are not in full-time work or study, you may get Carer's Allowance.  You must be 16 or over and care for them for at least 35 hours a week.  The person you care for must receive one of the following:

- the middle or high rate of the care component of Disability Living Allowance,
- the daily living component of Personal Independent Payment,
- Attendance Allowance,
- Constant Attendance Allowance, or
- Armed Forces Independence Payment.

Carer's Allowance is claimed online www.gov.uk/carers-allowance.

### Protecting your pension

The amount of State Pension you get is based on the National Insurance contributions you have paid and any that have been credited to you.  If you care for someone, you may be entitled to National Insurance credits for carers.  These credits are usually given automatically if you get Income Support or Carer's Allowance.

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

CARDIFF
CAERDYDD

GIG CYMRU
NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

If you cannot get Carer's Allowance but care for at least one person for 20 hours or more a week, you may apply for a weekly Carer's Credit towards your pension.

- find out more at www.gov.uk/carers-credit
- or phone **0845 608 4321**

## Housing Benefit

If the person you care for claims Housing Benefit and you regularly stay overnight, they may be able to claim for an extra bedroom.

If you claim Housing Benefit, the amount you get may be increased if you are paid Carer's Allowance. Contact your local Council to find out more.

## Council Tax Reduction

Council Tax is based on two adults living in a property. In some circumstances a person may be disregarded for Council Tax purposes. If there is only one adult in the property who is not disregarded, a 25% discount may apply. One of the categories of people who may be disregarded is carers.

To qualify as a carer for Council Tax, you must:-

- live with the person you care for,
- provide care for someone other than your partner or your child (under the age of 18),
- provide care for at least 35 hours per week, and
- care for a person who receives one of the following:
- Attendance allowance,
- The highest or middle rate of the care component of Disability Living Allowance, or
- Either rate of the daily living component of Personal Independence Payment.

A person can have more than one carer and if everyone in the property, including the person being cared for is disregarded (eg if they are severely mentally impaired), then a 50% disregard can apply.

If you think you may be affected by this, please contact your local Council Tax office.

## Grants

You may be able to get financial support through charities and benevolent organisations that offer loans and grants to help pay for items and services. These are listed in "A guide to grants for individuals in need", available from Barry and Cardiff Central Libraries. You can also get support from your local

Credit Union, a non-profit financial co-op where you can save money and have access to low-cost loans.

Information about grants available from charities and organisations can also be found on the Managing Your Money section of www.dewis.wales.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg / This document is available in Welsh.

This factsheet is produced by Cardiff Council, Vale of Glamorgan Council and Cardiff and Vale University Health Board.  Every effort has been made to make sure the information is correct and up to date.

V1 May 2018

# Taflen Ffeithiau Gofalwr

## Materion Ariannol

### Budd-daliadau

Efallai eich bod chi neu'r person yr ydych yn gofalu amdano yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol yn dibynnu ar eich oedran, eich anghenion a'ch incwm.

Mae budd-daliadau'n gymhleth iawn, felly byddai'n ddoethach ceisio cyngor gan sefydliadau megis Cyngor ar Bopeth, Age Connects, neu eich Hyb lleol os ydych yn byw yng Nghaerdydd.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd yn cynnig cymorth ar-lein ar www.gov.uk.

### Lwfans Gofalwr

Os ydych yn gofalu am rhywun sy'n wael neu sydd ag anabledd difrifol, ac felly ddim yn gweithio na'n astudio llawn amser, efallai y cewch Lwfans Gofalwr. Mae'n rhaid i chi fod yn 16 oed ac yn gofalu amdanynt am o leiaf 35 awr yr wythnos.  Mae'n rhaid i'r person yr ydych yn gofalu amdano dderbyn un o'r canlynol:

- graddfa ganolig neu uchel elfen ofal y Lwfans Byw I'r Anabl.
- elfen byw bob dydd y Taliad Annibyniaeth Bersonol,
- Lwfans Gweini,
- Lwfans Gweini Cyson, neu
- Taliad Annibynnol y Lluoedd Arfog.

Gallwch hawlio'r Lwfans Gofalwr ar-lein yn www.gov.uk/carers-allowance.

### Amddiffyn eich pensiwn

Mae swm Pensiwn y Wladwriaeth yr ydych yn ei gael yn dibynnu ar y cyfraniadau Yswiriant Gwladol a dalwyd gennych ac unrhyw rai sydd wedi'u talu i chi.  Os ydych yn gofalu am berson, gallwch fod yn gymwys ar gyfer credyd gofalwyr

Yswiriant Gwladol.  Mae'r credydau hyn fel arfer yn cael eu talu'n awtomatig os ydych yn cael Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Gofalwr.

Os nad oes modd i chi gael Lwfans Gofalwr ond eich bod yn gofalu am o leiaf un person am o leiaf 20 awr yr wythnos, gallwch wneud cais am Gredyd Gofalwr wythnosol tuag at eich pensiwn.

- mae rhagor o wybodaeth ar www.gov.uk/carers-credit
- neu dros y ffôn **0845 608 4321**

## Budd-dal Tai

Os yw'r person yr ydych yn gofalu amdano'n hawlio Budd-dal Tai, ac os ydych chi'n aros dros nos yn y cartref yn aml, efallai y gallant hawlio am ystafell wely ychwanegol.

Os ydych chi'n hawlio Budd-dal Tai, efallai y bydd y swm yr ydych yn ei dderbyn yn cael ei gynyddu os ydych yn derbyn Lwfans Gofalwr.  Cysylltwch â'ch Cyngor lleol i ddarganfod mwy.

## Gostyngiad y Dreth Gyngor

Mae'r Dreth Gyngor yn seiliedig ar ddau oedolyn yn byw mewn eiddo.  Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd person yn cael ei ddiystyru at ddibenion y Dreth Gyngor.  Os mai dim ond un oedolyn sy'n byw yn yr eiddo sydd heb ei ddiystyru, gallai disgownt o 25% fod yn berthnasol.  Un o'r categorïau o bobl all gael eu diystyru yw gofalwyr.

Er mwyn bod yn gymwys fel gofalwr parthed y Dreth Gyngor, mae'n rhaid i chi:-

- fyw efo'r person yr ydych yn gofalu amdano,
- cynnig gofal i rywun heblaw am eich partner neu'ch plentyn (dan 18 oed),
- cynnig gofal am o leiaf 35 awr yr wythnos, a
- gofalu am berson sy'n derbyn un o'r canlynol:
- Lwfans Gweini,
- graddfa ganolig neu uchel elfen ofal y Lwfans Byw I'r Anabl, neu
- Unrhyw un o gyfraddau elfen Byw Bob Dydd y Taliad Annibyniaeth Bersonol.

Gallai person fod â mwy nag un gofalwr ac os yw pawb yn yr eiddo, gan gynnwys y person sy'n derbyn gofal, yn cael eu diystyru (e.e. os oes ganddynt nam difrifol ar y meddwl), gall gostyngiad o 50% fod yn berthnasol.

Os ydych yn meddwl y gall hyn fod yn berthnasol i chi, cysylltwch â'ch swyddfa Dreth Gyngor leol.

## Grantiau

Efallai y byddwch yn gallu cael cymorth ariannol gan elusennau a sefydliadau elusengar sy'n cynnig benthyciadau a grantiau i helpu pobl i dalu am eitemau a gwasanaethau. Rhestrir y rhain yn "Canllaw grantiau i bobl mewn angen", sydd ar gael yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd a Llyfrgell Y Barri. Gallwch hefyd gael cymorth gan eich Undeb Credyd lleol, cydweithfa ariannol nid er elw lle gallwch gynilo arian a chael mynediad at fenthyciadau cost isel.

Mae gwybodaeth am y grantiau sydd ar gael gan elusennau a sefydliadau ar gael yn adran Rheoli'ch Arian ar www.dewis.cymru

Cynhyrchir y ffeithlen hon gan Gyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

V1 Mai 2018